# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## 25/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)2875(FM), a chwestiwn 12, OAQ(3)2891(FM), yn ôl*

#### Camddefnyddio Sylweddau

**C13 Dai Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru? OAQ(3)2895(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae ein strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru wedi ei amlinellu yn y ddogfen 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. Mae £52.6 miliwn ar gael i gyflawni'r strategaeth yn ystod y flwyddyn gyfredol.

#### Gwasanaethau Cyhoeddus

**C14 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)2888(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ganolog i agenda Llywodraeth y Cynulliad, felly cynhelir trafodaethau parhaus. Yn benodol, gelwais uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus ym mis Chwefror, ac fe fyddaf yn gwneud hynny eto ym mis Gorffennaf i sbarduno'r trawsnewidiad radical sydd ei angen yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u cyflenwi, yn ystod cyfnod mwy heriol nag a welwyd erioed o'r blaen.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)2890(FM), yn ôl.*